# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *19 Medi 2023* |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   Cymeradwyo cynnwys ymateb y Cyngor i Ymgynghoriad Cyhoeddus yr Awdurdod Tân ac Achub.

2. **Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth am y dewisiadau a gynigir yng nghyswllt y modd y mae ei wasanaethau brys i'w darparu i'r dyfodol.

   Mae'r Cyngor wedi'i wahodd i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. O ystyried yr effaith a gaiff pob un o'r dewisiadau ar y gwasanaethau brys yn y Sir, mae'n briodol i'r Cabinet gymeradwyo cynnwys yr adborth.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

   **3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**
   Bu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymgynghori'n gyhoeddus ar ddyfodol darparu ei wasanaethau brys yn y rhanbarth ers yr 21 o Orffennaf eleni. Gweler y ddogfennaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn Atodiad 1. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn cau ar y 22 o Fedi ac o ganlyniad i drafodaethau mewnol efo rhanddeiliaid, mae'r ymateb yn Atodiad 2 wedi'i lunio fel adborth y Cyngor i'r dewisiadau sydd dan ystyriaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

   **3.2 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad**
   Mae'r ddogfen "Y Lle Iawn, yr Amser Iawn, Y Sgiliau Iawn" a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub fel sail i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn amlinellu tri dewis sydd dan ystyriaeth.

   i) Cynnal model ymateb 24 awr yn y gorsafoedd amser cyflawn presennol gyda gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd criw dydd gan ychwanegu tair gorsaf dân staff dydd yn Corwen, Porthmadog a

Dolgellau, gan adleoli diffoddwyr tân amser cyflawn yn dilyn newidiadau yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig.

ii) Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd yn ogystal a chael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y fan honno. Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, edrychir i ychwanegu tair gorsaf staff dydd, wedi'u lleoli yn Corwen, Porthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 22 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn.

iii) Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd yn ogystal a chael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y fan honno. Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, edrychir i ychwanegu dwy orsaf staff dydd, wedi'u lleoli yn Porthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 36 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn. Yn ychwanegol, cynigir cau pum gorsaf dân ar-alwad yn Abersoch, Biwmares, Cerrigydrudion, Conwy a Llanberis gan arwain at ostyngiad o 38 yn nifer y diffoddwyr tân ar-alwad.

Mae'r tri opsiwn yn argymell newidiadau o fewn trefniadau presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yng Ngwynedd ac mae'r ymateb arfaethedig gan y Cyngor yn adlewyrchiad o'r effaith a ragwelir ar y gwasanaethau yn y Sir.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae cyfran Cyngor Gwynedd o Lefi yr Awdurdod Tân ac Achub yn 2023/23 ychydig dros £7.9miliwn. Mae hynny'n golygu byddai cynnydd o 14% yn cyfateb i swm dros £1.1miliwn (a 10% ychydig o dan £800,000) fyddai angen ei ddarganfod o gyllideb y Cyngor. I osod y cyd-destun ariannol, byddai cynnydd o 1% mewn Treth Cyngor yn cynhyrchu oddeutu £900,000 o incwm ychwanegol.

Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu.

### 4.2 Swyddog Monitro

Dim sylw i'w ychwanegu o ran priodoldeb

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adolygiad Darpariaeth Brys Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru

Atodiad 2 – Ymateb Arfaethedig Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad